

## Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd – Cwestiynau Cyffredin

### Beth yw'r ymgyrch Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd?

- Sefydlwyd Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol a Penguin Books yn 2021 i sicrhau darpariaeth llyfrgell ysgol gynradd gyffredinol yn y Deyrnas Unedig erbyn 2029.
- Mae'r ymgyrch yn dod â sefydliadau ynghyd ar draws y sectorau elusennol, cyhoeddus a phreifat i fynd i'r afael â'r diffyg buddsoddiad mewn llyfrgelloedd ysgolion cynradd.
- Trwy hyfforddiant, adnoddau a deunyddiau darllen o ansawdd uchel, mae'r ymgyrch yn dileu rhwystrau rhag cael mynediad at lyfrau, yn hyrwyddo cariad at ddarllen ac yn rhoi llyfrgelloedd wrth wraidd diwylliant darllen er pleser yr ysgol gyfan.
- Gyda chymorth cyllidwyr traws-sector, partneriaid ac awduron, darlunwyr a storiwyr rhyfeddol, mae'r ymgyrch wedi ailfywiogi llyfrgelloedd ysgolion cynradd mewn cymunedau ledled y Deyrnas Unedig lle mae lefelau llythrennedd isel a thlodi yn cael yr effaith fwyaf ar fywydau plant.

### Beth yw rhaglen llyfrgelloedd ysgolion cynradd llywodraeth y Deyrnas Unedig?

- Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi pwysleisio pwysigrwydd llyfrgelloedd ysgolion cynradd trwy ymrwymo Cyllid Asedau Segur i sicrhau bod llyfrgell ym mhob ysgol gynradd y wladwriaeth yn Lloegr erbyn diwedd y senedd hon (2029).
- Mae ymrwymiad llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhan o'i rhaglen Every Child Can i sicrhau bod gweithgareddau cyfoethogol ar gael i bob plentyn sy'n eu galluogi i ddatblygu'r sgiliau, yr hyder a'r perthnasoedd y mae arnynt eu hangen i gyrraedd eu potensial. Ariennir y rhaglen gan y Cynllun Asedau Segur ac fe'i dosberthir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.
- Ar 1 Gorffennaf 2026, enwyd yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol yn bartner cyflawni ar gyfer rhaglen llyfrgelloedd ysgolion cynradd llywodraeth y Deyrnas Unedig, a fydd yn nodi dechrau ail gam ymgyrch llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd yr elusen, a sefydlwyd ar y cyd â Penguin Books yn 2021.
- Ar ddiwedd blwyddyn academiaidd 2025/26, bydd cam cyntaf yr ymgyrch llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd wedi'i gwblhau. Yn ystod y cam hwn, bydd yr ymgyrch wedi ailfywiogi mannau llyfrgell dynodedig mewn bron 2,000 o ysgolion cynradd y wladwriaeth ledled y Deyrnas Unedig.
- Yn ogystal ag ymrwymiad y llywodraeth, roedd maniffesto llywodraeth Cymru wedi addo gwarantu mannau llyfrgell dynodedig ym mhob ysgol gynradd yng Nghymru erbyn 2030.

## Beth yw llyfrgell ysgol?

- Yng nghyd-destun yr ymgyrch llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd, rydym yn diffinio man llyfrgell dynodedig fel ardal ar wahân i ystafell ddosbarth sy'n darparu mynediad at gasgliad wedi'i guradu o adnoddau a fydd o fudd i ddysgu a datblygiad disgyblion.
- Cydnabyddwn fod angen i ysgolion weithio gyda'r mannau sydd ar gael iddynt i ddarparu rhywbeth sy'n gweithio i'w cymuned ysgol, felly bydd y mannau hyn yn amrywio.

## **Beth mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn ei gael?**

- Hyfforddiant datblygiad proffesiynol trwyadl wyneb yn wyneb ac ar-lein a chymorth arbenigol ar gyfer dau aelod o staff.
- 500 o lyfrau newydd sbon amrywiol, o ansawdd uchel sy'n gweddu i ddiddordebau, profiadau a chefnidiroedd disgyblion; darpariaeth llyfrau llafar; a phecyn o ddodrefn i helpu i ddatblygu eu man llyfrgell dynodedig.
- Aelodaeth â'r Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol, sy'n galluogi hyd at 20 aelod o staff i gael mynediad diderfyn at adnoddau addysgu, offer gwella ysgol a gwybodaeth broffesiynol i gefnogi darllen, ysgrifennu a llafaredd.
- Cymorth parhaus yn ystod y flwyddyn ar ôl cymryd rhan, gan gynnwys cyfleoedd datblygiad proffesiynol ychwanegol a phecynnau llyfrau ychwanegol.

## **Beth yw'r meini prawf cymhwyso ar gyfer ysgolion?**

- Mae'r rhaglen Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd ar agor i geisiadau gan ysgolion cynradd y wladwriaeth yn y Deyrnas Unedig nad oes ganddynt fan dynodedig ar gyfer llyfrgell ysgol ar hyn o bryd ac nad ydynt wedi bod ar y rhaglen Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd o'r blaen.
- Mae'r rhaglen a gefnogir gan y llywodraeth ar agor i ysgolion cynradd cymwys y wladwriaeth yn Lloegr, tra bod y rhaglen Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd ehangach ar agor i ysgolion cynradd y wladwriaeth yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## **A yw ysgolion Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (AAAA) yn gymwys i gymryd rhan?**

- Ydynt, mae ysgolion AAAA y wladwriaeth a lleoliadau â disgyblion oed cynradd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cymryd rhan yn y rhaglen Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd (h.y. nad oes ganddynt lyfrgell ysgol ac nad ydynt wedi bod ar y rhaglen Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd o'r blaen) yn gymwys i wneud cais.

### **A oes rhaid talu i gymryd rhan?**

- Nac oes. Diolch i gefnogaeth hael ein partneriaid cyllido, sydd yr un mor frwd ynglŷn â llyfrgelloedd ysgolion cynradd â ni, mae'r rhaglen Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd yn cael ei hariannu'n llawn ac mae'n rhad ac am ddim i ysgolion.

### **Sut gall ysgolion gofrestru i gymryd rhan yn y rhaglen?**

- Gall arweinwyr ysgolion sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y rhaglen Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd yn ystod blwyddyn academiaidd 2026/27 lenwi ffurflen mynegi diddordeb ar-lein. Ewch i: [librariesforprimaries.org.uk/schools](https://librariesforprimaries.org.uk/schools)

### **Beth mae'r ymgyrch wedi'i gyflawni hyd yma?**

Ers i'r rhaglen Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd gael ei sefydlu ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol a Penguin Books yn 2021, mae'r ymgyrch wedi:

- Ailfywiogi mannau llyfrgell dynodedig mewn 1,845 o ysgolion cynradd y wladwriaeth yn y Deyrnas Unedig
- Rhoi 820,700 o lyfrau amrywiol o ansawdd uchel i lyfrgelloedd ysgolion cynradd
- Cyrraedd 594,436 o ddisgyblion oed ysgol gynradd
- Hyfforddi 3,690 o athrawon i ddatblygu ac ymgorffori darllen er pleser

## Beth yw effaith Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd ar ymgysylltiad disgyblion â darllen?

Mae Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd yn hybu mwynhad plant o ddarllen yn y tymor hir a'u harferion darllen dyddiol, yn gwella sgiliau darllenwyr sy'n cael trafferth ac yn cefnogi diwylliant darllen ysgol gyfan. Mae'r gwerthusiad diweddaraf o'r rhaglen Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd yn datgelu, flwyddyn ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen[1]:

- bod 2 o bob 3 o blant yn mwynhau darllen yn fwy (66.3%) ac yn darllen yn amlach (66.3%);
- bod 4 o bob 5 (81.3%) o blant yn fwy hyderus yn eu gallu i ddarllen; a
- bod bron hanner (44%) o'r plant yr oedd arnynt angen cymorth fwyaf wedi gwneud gwelliannau ystyrlon mewn profion darllen safonedig, gan symud ymlaen i lefel uwch o gyrhaeddiad.

## Beth mae'r ymchwil yn ei ddangos?

### *Yr angen*

Pan fydd plant yn mwynhau darllen a phan fydd deunyddiau darllen amrywiol ar gael iddynt, maen nhw'n darllen yn amlach, sydd o fudd[2] i'w llwyddiant academiaidd, eu lles, eu hyder, eu creadigrwydd a'u cyfleoedd mewn bywyd[3].

Ac eto, mae gormod o blant a phobl ifanc yn colli'r cyfle i fanteisio ar ddarllen er pleser ac yn wynebu rhwystrau sylweddol rhag cael mynediad at ddeunyddiau darllen amrywiol yn eu hysgolion, eu cartrefi a'u cymunedau:

- Er bod lefelau darllen er pleser a darllen dyddiol plant wedi cynyddu ychydig yn 2026, maen nhw'n ddifrifol isel o hyd, gyda thraean yn unig (36.1%) o blant 8 i 18 oed yn dweud eu bod yn mwynhau darllen yn eu hamser sbâr ac un rhan o bump (20.3%) yn dweud eu bod yn darllen bob dydd[4].
- Nid oes gan 1 o bob 7 o ysgolion cynradd y wladwriaeth yn y Deyrnas Unedig fan llyfrgell dynodedig, sy'n codi i 1 o bob 4 o ysgolion cynradd yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y wlad[5].

- Mae 1 o bob 10 (10.3%) o blant 5-18 oed yn dweud nad oes ganddynt eu llyfr eu hunain gartref, sy'n codi i 1 o bob 6 (15.7%) mewn cymunedau difreintiedig[6].
- Mae 1 o bob 5 (20%) o rieni'n prynu llai o lyfrau i'w plant o ganlyniad i'r argyfwng costau byw, gan gynyddu i 1 o bob 3 (36.1%) o'r rhai sydd mewn trafferthion ariannol[7].

Mae llyfrgelloedd ysgolion cynradd yn dileu rhwystrau ariannol rhag cael mynediad at lyfrau ac yn helpu i sicrhau tegwch rhwng plant o wahanol gefndiroedd.

### *Pwysigrwydd llyfrgelloedd ysgolion cynradd*

Mae adolygiad o dystiolaeth ynglŷn ag effaith llyfrgelloedd ysgolion cynradd ar ddeilliannau llythrennedd plant a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol yn 2023[8] yn dangos:

- Bod llyfrgelloedd ysgolion yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad academiaidd, deilliannau dysgu llwyddiannus ac agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu.
- Gall llyfrgelloedd ysgolion sydd ag adnoddau da gael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad ac ymgysylltiad disgyblion o ran darllen ac ysgrifennu, ni waeth am eu statws economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd ac anabledd.
- Bod defnyddio llyfrgell ysgol yn cynyddu mwynhad o ddarllen, sy'n cyd-fynd â gwell llwyddiant academiaidd a chyfleoedd mewn bywyd.
- Gall llyfrgelloedd ysgolion gefnogi lles plant a phobl ifanc trwy hyrwyddo mannau diogel, annog darllen er pleser, darparu mynediad at ddeunyddiau darllen sy'n gallu helpu plant i archwilio eu hemosiynau, a datblygu empathi.

Mae pwysigrwydd llyfrgelloedd ysgolion cynradd wedi cael ei bwysleisio gan ymrwymiad y llywodraeth i ariannu llyfrgell ym mhob ysgol gynradd y wladwriaeth yn Lloegr erbyn diwedd y senedd hon, yn ogystal ag addewid maniffesto Llywodraeth Cymru i warantu mannau llyfrgell dynodedig ym mhob ysgol gynradd yng Nghymru erbyn 2030.

## **A fydd y rhaglen Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd yn parhau i gael ei darparu ledled y Deyrnas Unedig, er bod cyllid y llywodraeth ar gyfer Lloegr yn unig?**

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i ariannu llyfrgelloedd ym mhob ysgol gynradd y wladwriaeth yn Lloegr erbyn diwedd y senedd hon. Yn ogystal, mae Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd eisiau parhau i sicrhau bod llyfrgelloedd ym mhob ysgol gynradd y wladwriaeth ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon erbyn 2029.

Rydym yn barod i weithio gyda'r llywodraeth, busnesau, cyhoeddwyr a sefydliadau i derfynu'r loteri cod post presennol o ran llyfrgelloedd ysgolion.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu Llyfrgelloedd i Ysgolion Cynradd ledled y Deyrnas Unedig, a bydd yn hanfodol i'r sectorau cyhoeddus a phreifat weithio mewn partneriaeth i gyflawni hyn.

[1] Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol (2026) Libraries for Primaries: Insights from 2024-25

[2] Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol (2025) Children and young people's reading in 2025

[3] British Land, yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol, WPI Strategy (2021) The Power of Reading for Pleasure

[4] Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol (2026) Children and young people's reading in 2026

[5] Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol a Penguin Books (2022) Working Together Towards a Library in Every Primary School

[6] Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol (2025) Children and young people's book ownership in 2025

[7] Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol (2023) Children and young people's access to books and educational devices at home during the cost-of-living crisis

[8] Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol (2026) Libraries for Primaries: Insights from 2024-25